Y Sioe
# ADDYSG
Genedlaethol

Yn ymgorffori'r **Sioe AAA/ADY**

**Mehefin 12fed 2026**

**VENUE CYMRU LLANDUDNO**

# Llyfryn Sioe




**50% I FFWRDD**

Archebion grŵp o 10+
nes Ebrill 24ain 2026

Ewch i'n safwe!

**GWEITHIO GYDA:**

wjec cbac | NSM Training & Consultancy | Agored Cymru | NAHT The School Leaders' Union | Prifysgol Bangor University | CYDAG | Cyngor Llyfrau Cymru Books Council of Wales | Urdd

www.sioeaddysggenedlaethol.com | einir@sioeaddysggenedlaethol.com | 01766496830

# BARAD, PARATOWCH, ARCHEBWCH!

## FFURFLEN ARCHEBU

Archebu ar gyfer eich ysgol gyfan, coleg neu feithrinfa?

Rydym wedi gwneud y broses yn syml.



- Sganiwch y côd QR neu ewch i'r ddolen isod i gael mynediad at y ffurflen archebu. https://nationaleducationshow.com/llandudno-group-booking-form/?lang=cy
- Dylai pob mynychwr gwblhau'r rhan uchaf o'r ffurflen a dewis eu seminarau drwy gylchu teitlau'r seminarau.
- Bydd angen i un person dynodedig gwblhau'r adran waelod gyda gwybodaeth anfoneb.
- Yn olaf, sganiwch a dychwelwch y ffurflenni wedi'u cwblhau i info@nationaleducationshow.com



## EICH TOCYN

Pwysig!
Byddwch yn derbyn e-bost cadarnhau gan Eventbrite o fewn pythefnos i gyflwyno'ch ffurflen gofrestru, **cadwch yr e-bost hwn yn ddiogel.**

Bydd angen i chi sganio'r côd QR o'ch e-bost cadarnhau gwreiddiol wrth gyrraedd y Sioe.


**Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn gwirio hyn ymlaen llaw ac yn cysylltu ar unwaith os nad ydych wedi derbyn eich e-bost cadarnhau archebu.**

Os nad oes gennych eich e-bost cadarnhau / côd QR, bydd angen i chi fynd at y 'Ddesg Gymorth Gwybodaeth' ar y diwrnod, a gall hyn oedi eich mynediad.

## DIWRNOD SIOE

**Rydym wedi gwneud eich diwrnod yn y Sioe hyd yn oed yn haws!**
Pan fyddwch yn sganio'ch côd QR wrth y ddesg gofrestru, bydd eich bathodyn yn cael ei argraffu i chi.
Ar gefn eich bathodyn fe welwch dabl defnyddiol yn dangos teitlau eich seminarau a rhifau'r ystafelloedd.
Defnyddiwch hyn fel eich canllaw personol i fynd o amgylch Venue Cymru a chyrraedd eich seminarau yn rhwydd.

'TIP Y DYDD'
Os yw rhif eich ystafell seminar yn dechrau gyda'r rhif 1 – mae'r ystafell ar y llawr cyntaf.
Os yw rhif eich ystafell seminar yn dechrau gyda'r rhif 2 – mae'r ystafell ar yr ail lawr.



**GWNEWCH GOPI I POB AELOD STAFF OS GWELWCH YN DDA.**

**Mehefin 12fed 2026**
**Venue Cymru, Llandudno**

Enw ______________________________ Ysgol / Sefydliad ______________________________

Cyfeiriad ebost ______________________________ Teitl Swydd ______________________________

**(Sicrhewch fod eich cyfeiriad e-bost yn un unigol fel y gall Agored Cymru tystysgrif am ddyfarnu oriau DPP).**

**Marciwch y tabl isod gyda'r seminarau yr hoffech eu mynychu.**

Seminarau ADY

**PWYSIG!**

| | 09:00 - 09:50 | 10:30 - 11:20 | 12:00 - 12:50 | 13:30 - 14:20 | 15:00 - 15:50 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ystafell i'w gadarnhau** | Strategaethau ymarferol i gynyddu cyfranogiad rhieni yn yr ysgol<br><br>Nicola S. Morgan | 'Guru' Ymddygiad<br><br>Nicola S. Morgan | Grymuso llythrennedd drwy dechnoleg creadigol<br><br>Lee Parkinson (Mr P MBE) | Adnoddau technolegol i drawsnewid eich dysgu<br><br>Lee Parkinson (Mr P MBE) | Y pŵer o berthyn<br><br>Nick Bowen |
| **Ystafell i'w gadarnhau** | Adnabod eich hun, adnabod eraill<br><br>Julie Rees | Recriwtiad sy'n gweithio: chwilio a chadw y pobl gorau<br><br>Sonia Gill | Deall lles meddyliol<br><br>Mike Pegan | Y ffactor gudd tu ôl i'r ysgolion gorau (nad oes neb yn sôn amdanynt)<br><br>Sonia Gill | Llenyddiaeth amrywiol mewn ysgolion<br><br>Dr Sarah Olive |
| **Ystafell i'w gadarnhau** | "Beyond the register: Creating cultures of meaningful attendance™"<br><br>Kelly Hannaghan | Adnabod ADY a'i effaith ar gynnydd, adnoddau a lles<br><br>Emma Pinnock | 'Beyond Exhaustion': Deall a chefnogi 'Burnout' Niwrowahaniaethol yn y dosbarth<br><br>Kelly Hannaghan | AuDHD: Deall sut mae ADHD ac awtistiaeth yn croesdorri<br><br>Dr Tom Nicholson | Delwedd corff: Adeiladu hyder a gwytnwch<br><br>Martin Staniforth |
| **Ystafell i'w gadarnhau** | MAE RHAMANT YN FYW: Syrthio mewn cariad hefo dysgu (eto)<br><br>Hywel Roberts | Rhythm, rheoliad a thrwsio: Defnyddio technegau therapi cerdd ar gyfer adfer o drauma<br><br>Joy Dando | YSGOLION HAPUS: Datrysiad i 'Botheredness', gwneud i ddysgu gyfrif, ac ail-ddarganfod hapusrwydd<br><br>Hywel Roberts | Gwrando i bwrpas: Defnyddio therapi cerdd 'Receptive' i gefnogi plant Niwrowahaniaethol<br><br>Joy Dando | Gwylwyr tywydd: Troi deunyddiau ailgylchadwy yn ddata go iawn<br><br>Charlotte Cooper & Jennifer Hough |
| **Ystafell i'w gadarnhau** | Deffro potensial mewn disgyblion ADY yn eich dosbarthiadau<br><br>Emma Pinnock | Hyfforddi cyfoedion: Yr 'antidote' i'r cyfryngau cymdeithasol<br><br>Jackie Beere | Stopiwch hunan-ddifrodi- Dwi angen gadael!<br><br>Jackie Beere | Pam fod Mathemateg cynradd mor arswydus â rhedeg marathon?<br><br>Toni Priddey | Defnydd effeithiol o ddeunyddiau ymarferol mewn mathemateg cynradd ar gyfer pob plentyn<br><br>Toni Priddey |
| **Ystafell i'w gadarnhau** | Y 10 strategaeth orau i gefnogi plant a phobl ifanc hefo ADHD yn ein hysgolion<br><br>Colin Foley | *'Autism plus environment = Outcome'*<br><br>Tigger Pritchard | Creu amgylchedd sy'n gynhwysol i'r plant a phobl ifanc niwrowahaniaethol mewn ysgol<br><br>Colin Foley | Awtistig, yn yr ysgol, gall deall ein gwahaniaethau synhwyraidd wella dysgu<br><br>Tigger Pritchard | Defnyddio hyfforddi i ddatblygu egwyddorion addysgu eich cydweithwyr<br><br>Jonathan Ferstenberg |
| **Ystafell i'w gadarnhau** | 'Bullying is so gay'<br><br>Ian Timbrell | Pam mae lleoliadau sy'n wybodus am drawma yn hanfodol<br><br>Dr Coral Harper | Delio hefo gwrthod ar gynhwysiad<br><br>Ian Timbrell | Sut i gyflwyno trafodaeth dosbarth sy'n dal sylw y myfyrwyr, gwreiddio'r dysgu a stretsio'r meddwl?<br><br>Jonathan Ferstenberg | Cracio rhifedd drwy arddull ffonig<br><br>Ben Harding |
| **Ystafell i'w gadarnhau** | Deallusrwydd Artiffisial(AI) fel cyd-weithiwr: Cefnogi Ymennydd Niwrowahaniaethol heb ei ailosod oherwydd mae'r dyfodol yn Niwrowahaniaethol<br>Sam Warner | Diogelu rhag niweidiau digidol- chwarae gemau, dylanwadwyr a gamblo<br><br>Hannah Gunn | Crynodeb o'r seminar: 'beyond the page<br><br>Gareth Williams | Dyslecsia a fi – deall dyslecsia ar gyfer staff addysg<br><br>Karen Ferguson | Y Dull Catrin ac Abi<br><br>Dr John Evans |
| **Ystafell i'w gadarnhau** | Sut i ffynnu fel Pennaeth<br><br>Viv Grant | Arwain hefo dewrder: Sgyrsiau am hil mewn ysgolion<br><br>Viv Grant | Cyflwyniad i dyscalculia ac anawsterau mathemategol<br><br>Cat Eadle | Adeiladu eich tîm lles meddyliol<br><br>Mike Pegan | Strategaeth darllen effeithiol<br><br>Mrs Bethan G Jones a Mrs Eirian Jones<br>CYDAG |
| **Ystafell i'w gadarnhau** | Siarad llai wrth addysgu<br><br>Isabella Wallace | Gweithio gyda dysgwyr Niwrowahaniaethol<br><br>Dr Tom Nicholson | Bywiogi eich gwersi<br><br>Isabella Wallace | Chwarae i ddysgu<br><br>Gwawr Thomas a Joanne Davies | Estyn: ychwanegu gwerth at y system addysg<br><br>ESTYN |
| **Ystafell i'w gadarnhau** | Beth sydd cyn cam cynnydd 1?<br><br>Rhodri Gwyn Jones<br>CYDAG | Gweithdy dwylo niferus<br><br>Adnodd | Cynllun pontio - cynradd uwchradd<br><br>Robin Williams | Trochi effeithiol yn y Blynyddoedd Cynnar<br><br>Dr Sian Siencyn<br>CYDAG | |
| **Ystafell i'w gadarnhau** | Cryfhau llais y dysgwr<br><br>Meinir Davies a Helen Bebb<br>CYDAG | Tracio ac asesu cynnydd Ysgol Llanfairpwll<br><br>Gwyn Pleming<br>CYDAG | Yn gryfach gyda'n gilydd: Meithrin gwydnwch a llesiant drwy hyfforddi<br><br>Dyddgu Morgan-Hywel | Datblygu medrau darllen ar draws feysydd y cwricwlwm<br><br>Awen Mair<br>CYDAG | |

***PWYSIG: COFIWCH EDRYCH AR EIN SAFWE AM Y FFURFLEN ARCHEBU DIWEDDARAF GAN FOD RHAIN YN NEWID YN DDYDDIOL!**

**Ebostiwch rhain i ni: einir@sioeaddysggenedlaethol.com**

**Pris seminar os yn archebu'n fuan £10.00 + TAW (nes Ebrill 24ain 2026) | £15.00 + TAW pris arferol | £20.00 + TAW - archebu ar y diwrnod. 50% i ffwrdd archebion grŵp dros 10+ (nes Ebrill 24ain 2026)**

**PWYSIG: NI ALLWN WNEUD UNRHYW NEWID I'CH SEMINAR AR OL 3YH DYDD GWENER, MEHEFIN 5ED 2026**

SGANIWCH

Manylion Anfoneb: *(Os ydych chi'n gwneud archebiad grŵp, does dim ond rhaid llenwi'r manylion isod un waith).*

Enw Cyswllt: ______________________ Cyfeiriad Ebost: ______________________

Address: ______________________ Rhif Ffôn: ______________________

Côd Post: ______________________ Rhif Archeb: ______________________

**Drwy gyflwyno'r ffurflen hon rydych chi'n cytuno i'n telerau ac amodau sydd ar ein safwe: www.nationaleducationshow.com/terms-conditions**

# Seminarau a Siaradwyr

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

Darllen am seminarau

Ffurflen archebu grŵp

09:00 - 09:50

## Strategaethau ymarferol i gynyddu cyfranogiad rhieni yn yr ysgol

Mae ymgysylltiad rhieni yn un o'r dylanwadau mwyaf pwerus ar ddysgu plentyn a'i lwyddiant hirdymor. Pan fydd ysgolion a theuluoedd yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol, mae'r canlyniadau'n drawsnewidiol – gan godi safonau, gwella ymddygiad, a chryfhau'r gymuned ysgol gyfan.
Mae'r seminar hwn yn cynnig cyfoeth o strategaethau profedig a dibrofwyd i'r cyfranogwyr er mwyn adeiladu partneriaethau cryfach gyda rhieni a gofalwyr. Wrth dynnu ar ddulliau sydd wedi'u treialu'n helaeth mewn amrywiaeth eang o leoliadau, mae'r sesiwn yn canolbwyntio ar ddeall pwysigrwydd ymgysylltu teuluol, cynyddu cyfranogiad ystyrlon gan rieni, a darparu tystiolaeth o'r canlyniadau cadarnhaol.



Cyflwynir gan:

**Nicola S. Morgan**
Ymgynghorydd Addysg, Awdur a Siaradwr TEDx

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

09:00 - 09:50

## Adnabod eich hun, adnabod eraill

Bydd hon yn sesiwn drochi, lle bydd y cyfranogwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hunan-ymwybyddiaeth fydd yn eu hannog i adlewyrchu ar eu perthynas o fewn eu sefydliad.
Bydd y cyfranogwyr yn profi:

- Gwell dealltwriaeth o sut y dymunent gyfathrebu
- Adnoddau i gefnogi perthynas gryfach gan ddefnyddio hyfforddiant ('coaching') fel platfform i gefnogi datblygiad personol
- Sut i gael eich cyfareddu, nid bod yn rhwystredig



Cyflwynir gan:

**Julie Rees**
Arweinydd a Hyfforddwr

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

09:00 - 09:50

## 'Beyond the register: Creating cultures of meaningful attendance™'

Drwy fframwaith y 'Meaningful Attendance™' byddwch yn edrych ar sut i symud o fesurau adweithiol i strategaethau rhagweithiol sy'n adeiladu ar ddiogelwch seicolegol, ail-gysylltu gyda teuluoedd, ac adfer pwrpas mewn addysg.
P'run ai os ydych yn wynebu anawsterau mynychu ysgol ar sail emosiynol (EBSA),absenoldebau staff,neu ymddieithrio ehangach, mae'r sesiwn yn cynnig adnoddau cadarn a syniadau newydd all greu newid parhaol i'r ysgol gyfan, gan ddechrau'n syth ar y diwrnod canlynol.



Cyflwynir gan:

**Kelly Hannaghan**
Ymgynghorydd Iechyd Meddwl a Lles

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

09:00 - 09:50

## MAE RHAMANT YN FYW: Syrthio mewn cariad hefo dysgu (eto)

Yn y seminar hwn, bydd Hywel yn:

- Cynnig cyferbyniad rhwng y wyddor a'r gelfyddyd o addysgu
- Rhannu syniadau o'i lyfr poblogaidd 'Botheredness' am y ddawn o ddweud stori, dulliau addysgu trwy werthuso [Inductive pedagogies], llafaredd, cynhwysiad a gobaith
- Sut i gael y cwricwlwm 'byw'['lived in'] yn iawn fel ymdrech ddynol o ddifri'
- Cynnig ffyrdd o adfywio diwylliannau addysgu sydd eisioes yn bodoli
- Awgrymu ymchwil defnyddiol
- Derbyn y ffaith wrth drafod addysg fod siniciaeth yn gallu bodoli ochr yn ochr â rhamantiaeth yn hytrach na'i ddinistrio.
- Hyrwyddo sgyrsiau a chael hwyl



Cyflwynir gan:

**Hywel Roberts**
Athro, Awdur a Siaradwr Cyhoeddus

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

09:00 - 09:50

SEMINAR ADY

## Deffro potensial mewn disgyblion ADY yn eich dosbarthiadau

Bydd y seminar yma'n cynnal sgwrs heriol am 'paedology' ADY, ac oes ganddon ni un mewn lle?

Beth fuasen ni'n roi mewn lle i gefnogi cwricwlwm ADY mewn lleoliad prif lif i sicrhau ein bod yn deffro gwir botensial ein disgyblion ADY.

Sut ydyn ni'n sicrhau ein bod yn asesu eu mannau cychwynnol ('starting points') yn effeithiol er mwyn hyrwyddo asesu effeithiol a chynnydd ar gyfer ein disgyblion?



Cyflwynir gan:

**Emma Noel Pinnock**
Cyfarwyddwr sefydlu

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **ADY a Pawb**

09:00 - 09:50

SEMINAR ADY

## Y 10 strategaeth orau i gefnogi plant a phobl ifanc hefo ADHD yn ein hysgolion

- Yn y sesiwn byddwn yn edrych ar y ffyrdd allweddol canlynol i gefnogi ADHD yn ein dosbarthiadau:
- Deall y gwahanol fathau o dalu sylw, er enghraifft, rhanedig, talu sylw bob hyn a hyn,a thalu sylw dewisol yng nghyd destun rhoi sylw anwadal ac ADHD, a chynnig strategaethau i gefnogi hyn.
- Adolygu yr amgylchedd o ddiffyg talu sylw mewn ysgol.
- Blaenoriaethu y cof gweithiol('working memory') a strategaethau i gefnogi'r cof
- Strategaethau i hwyluso prosesu allanol i gefnogi bywiogrwydd meddyliol.
- Dysgu drwy symud.
- Strategaethau i gefnogi tasgau seiliedig ar lythrennedd.
- Strategaethau i gefnogi ymddygiad byrbwyll.



Cyflwynir gan:

**Colin Foley**
Cyfarwyddwr 'Neurodiversity Training UK'

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **ADY a Pawb**

# Seminarau a Siaradwyr

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

Darllen am seminarau

Ffurflen archebu grŵp

09:00 - 09:50

## *'Bullying is so gay'*

Mae disgyblion LHDTC+ yn fwy tebygol o gael eu bwlio yn yr ysgol, gyda'r niferoedd yn codi ar draws Cymru.Mae 'Bullying is so gay' yn edrych ar wreiddiau a grymusder iaith LHDTC+, hefo strategaethau ymarferol i herio ymddygiad, arfer hefo teuluoedd amrywiol, a chefnogi'r dioddefwyr.
Bydd cyfranogwyr yn cael adnoddau i wreiddio cymorth ar gyfer cynhwyso , ymateb i ddigwyddiadau'n effeithiol, a sefydlu diwylliant lle bydd pob plentyn yn teimlo'n ddiogel.
Bydd y sesiwn yn cynnwys arweiniad ac adnoddau parod i rieni i'w helpu i drafod pynciau LHDTC+ adref a chefnogi pobl ifanc sy'n cael eu bwlio.



Cyflwynir gan:

**Ian Timbrell**
Sylfaenydd 'More Than Flags and Rainbows'

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

09:00 - 09:50

## Deallusrwydd Artiffisial(AI) fel cyd-weithiwr: Cefnogi ymennydd Niwrowahaniaethol heb ei ailosod oherwydd mae'r dyfodol yn Niwrowahaniaethol

Problem: Mae rhai ysgolion yn ddealladwy yn nerfus i gyflwyno adnoddau AI y maent yn teimlo na allent ymddiried ynddynt.

Crynodeb: Edrych ar sut y gall adnoddau AI fod o gymorth i ddisgyblion niwrowahaniaethol ac athrawon drwy leihau'r pwysau gwybyddol a gwella cywirdeb, heb ddwyn yr elfen o greadigrwydd dynol.



Cyflwynir gan:

**Sam Warner**
Arbenigwr mewn cyfathrebu Niwrowahaniaethol

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

09:00 - 09:50

## Sut i ffynnu fel Pennaeth

Mae arwain ysgol yn fraint anhygoel, ond weithiau gall deimlo'n llethol. Mae'r gweithdy rhyngweithiol a chefnogol yma'n cynnig cefnogaeth a lle saff i Benaethiaid gymryd seibiant, adlewyrchu a darganfod sut y gall hyfforddiant('coaching') fod yn ffynhonnell hanfodol i gryfder ac anogaeth.
Gyda'n gilydd fe edrychwn ar sut mae hyfforddiant('coaching') yn meithrin lles,adeiladu gwytnwch, ac yn helpu arweinyddion ysgol i aros mewn cyswllt gyda'u hegwyddorion a'u gweledigaeth.

Bydd Penaethiaid yn gadael hefo adnoddau ymarferol a llawn gwybodaeth, fydd yn cefnogi nhw eu hunain ynghŷd â'u cymunedau ysgol, gan eu hatgoffa nad oes raid iddynt gario baich pennaeth ar eu pen eu hunain.



Cyflwynir gan:

**Viv Grant**
Sefydlydd a Chyfarwyddwr

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Penaethiaid: Cynradd/ Uwchradd/ADY**

09:00 - 09:50

## Siarad llai wrth addysgu

Wedi ei wreiddio yn yr ymchwil diweddaraf bydd strategaethau '*High Impacy, Low Prep*' gan Isabella yn helpu athrawon i wella cyfloedd i ddysgwyr i gymryd rhan mewn deialog dosbarth, yn ogystal â gwella sylwgarwch, cywreinrwydd, a hunan-ddibyniaeth. Yn y sesiwn bydd athrawon dosbarth yn darganfod ffyrdd newydd i adolygu llwyth o gynnwys hanfodol heb orffen hefo dôs ddrwg o golli llais!
Byddwch yn gadael hefo technegau parod i'w defnyddio ar gyfer cael cyfraniadau bywiog gan yr holl ddysgwyr hefo addysgu sy'n gadael neb ar ôl.



Cyflwynir gan:

**Isabella Wallace**
Sefydlydd a Chyfarwyddwr

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

09:00 - 09:50

CYDAG

## Beth sydd cyn cam cynnydd 1?
## Addasu darpariaeth dysgu sylfaen i gyd-fynd a'r cwricwlwm lleoliadau nas cynhelir

Mae Llywodraeth Cymru ac Estyn wedi argymell ysgolion i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer lleoliadau Meithrin a ariennir nas-gynhelir yn y blynyddoedd cynnar.Bydd y seminar yn cyflwyno sut aeth Ysgol Eifion Wyn ati i newid eu darpariaeth dysgu sylfaen i gyd-fynd â gofynion y cwricwlwm hwn gan gynnwys yr amgylchedd, oedolion sy'n gallu dysgu a profiadau sy'n ennyn diddordeb. Hefyd, bydd y seminar yn cyflwyno sut aeth yr ysgol ati i bonito'r disgyblion o'r Cwricwlwm Meithrin i Cwricwlwm i Gymru.



Cyflwynir gan:

**Rhodri Gwyn Jones**
Cyn Bennaeth Ysgol Eifion Wyn, Porthmadog, Bellach yn Arweinydd Cynradd CYDAG

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Cynradd**

09:00 - 09:50

CYDAG

## Cryfhau llais y dysgwr

Mewn arolwg craidd diweddar, cydnabwyd gwaith llwyddiannus Ysgol Gyfun David Hughes o ran cryfhau Llais y Dysgwr gan Estyn fel astudiaeth achos. Yn y sesiwn hon, fe fydd Mari a Helen yn cyflwyno'r ymchwil, cynllunio strategol, y gweithredu a'r effaith ar y maes arbennig hwn ar eu hysgol.

Byddant yn esbonio'r effaith yn benodol ar waith gwrth-hiliaeth fel rhan o'r cwricwlwm cyn symud i weithgaredd gweithdy fyddai'n rhoi syniad i'r ysgolion fyfyrio ar eu darpariaeth hwy ar sail 'Hart's Ladder' – sef eu man cychwyn nhw ar y daith.

Ysgol David Hughes

Cyflwynir gan:

**Meinir Davies –** Dirprwy Bennaeth
**Helen Bebb –** Arweinydd Llais y Dysgwr

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Uwchradd**

# Seminarau a Siaradwyr

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

Darllen am seminarau

Ffurflen archebu grŵp

10:30 - 11:20

## 'Guru' Ymddygiad

Mae pob athro yn gwybod y gall ymddygiad ymharu neu dorri gwers. O sgwrsio cyson a tharfu lefel isel i sefyllfaoedd mwy heriol, gall rheoli dosbarth wrth gadw'r dysgu ar y trywydd iawn deimlo'n llethol.
Yn y seminar rhyngweithiol hwn, fe welwch sut i gamu i'ch rôl fel 'Guru' Ymddygiad – yn dawel, yn hyderus, ac yn barod gyda strategaethau sy'n gweithio'n wirioneddol mewn ystafelloedd dosbarth go iawn. Mae'r sesiwn yn llawn technegau ymarferol y gallwch eu defnyddio ar unwaith, gyda ffocws ar adnabod yr arwyddion cynnar o darfu, adennill ffocws heb wrthdaro, a chreu hinsawdd ddosbarth gadarnhaol sy'n hyrwyddo parch ac atebolrwydd.



Cyflwynir gan:

**Nicola S. Morgan**
Ymgynghorydd Addysg, Awdur a Siaradwr TEDx

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10:30 - 11:20

## Recriwtiad sy'n gweithio: chwilio a chadw y pobl gorau

*Codi lefel y recriwtiad –Hurio gwell - Ffitio'i mewn - Cadw staff*
Mae ganddoch chi bobl gryf mewn lle-ond sut ydych chi'n dennu mwy o'r bobl addas â'u cadw i ffynnu?

Bydd y sesiwn yn dangos i chi sut i:
- Ddennu ymgeiswyr gwych
- Sbotio talent ynghyd â gwerthoedd
- Creu cynnig na all gael ei wrthod
- Cadw'r ymgeiswyr

Recriwtiad wedi'i wneud yn wych= timau cryfach, llai o gorddi, mwy o effaith.



Cyflwynir gan:

**Sonia Gill**
Cyfarwyddwr Heads-up

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

---

10:30 - 11:20

SEMINAR ADY

## Adnabod ADY a'i effaith ar gynnydd, adnoddau a lles

Bydd y sesiwn yn amlygu pwysigrwydd adnabod ADY a'i effaith ar adnoddau,cynnydd a lles o fewn y gymuned ysgol.

Mae ADY yn bwnc eang oherwydd fod y darlun o fod yn gyhwysol wedi digwydd ac mae gymaint o arweinyddion ysgol yn holi cwestiynau ynghylch adnoddau , cynnydd disgyblion a lles staff.

Yn y seminar byddaf yn pwysleisio pwysigrwydd adnabyddiaeth ADY fydd yn arwain at y gefnogaeth gywir, a'r targedu cywir i gefnogi'r ffactorau uchod.
Byddaf yn trafod yr elfennau ADY sydd yn cael eu hesgeuluso fwyaf a sut mae'r rheini'n cyfrannu at gynnydd a datblygiad y digybl.



Cyflwynir gan:

**Emma Noel Pinnock**
Cyfarwyddwr sefydlu

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

10:30 - 11:20

SEMINAR ADY

## Rhythm, rheoliad a thrwsio: Defnyddio technegau therapi cerdd ar gyfer adfer o drauma

Mae trauma'n effeithio ar allu plant i ffocysu, rheoli emosiynau ac ymgysylltu hefo dysgu.

Mae rhythm yn adnodd cryf a hawdd sy'n cael ei ddefnyddio mewn therapi cerdd a gall adfer y synnwyr o fod yn ddiogel, ymgysylltu a hunan- reolaeth.

Bydd y seminar rhyngweithiol yn cyflwyno athrawon i'r wyddor o beth sydd tu ôl i rhythm a thrauma, ac yn eu darparu hefo strategaethau yn seiliedig ar rhythm i adeiladu amgylchedd ddysgu sy'n sensitif i trauma.



Cyflwynir gan:

**Joy Dando**
Therapydd Cerdd

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

---

10:30 - 11:20

## Hyfforddi cyfoedion: Yr 'antidote' i'r cyfryngau cymdeithasol-dysgu sut i fod yn hyfforddwr meddylfryd a sut i drawsnewid meddwl yn negyddol.

Yn y sesiwn byddwch yn dysgu sut i fod yn hyfforddwr ('coach') i'ch disgyblion, cydweithwyr a hyd yn oed eich teulu. Bydd gennych y siawns i weld sut mae hyfforddi drwy sgwrs ('Coaching conversation) yn gallu newid arferion meddwl dinistriol.

- Profi hyfforddi ('coaching')eich hun
- Dysgu technegau fydd yn eich gwneud yn hyfforddwr gwych
- Darganfod sut i roi hyn ar waith yn eich dosbarth a'r ysgol gyfan i wrthweithio dylanwad y cyfryngau cymdeithasol



Cyflwynir gan:

**Jackie Beere**
Hyfforddwr, awdur ac ymgynghorydd – cyn Bennaeth

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10:30 - 11:20

SEMINAR ADY

## *Autism plus environment = Outcome*

Archwilio beth mae'n ei olygu i fod yn Awtistig, a pha mor bwysig yw'r dyfyniad 'Autism plus environment = Outcome'.
Enghreifftiau bywyd go iawn gen i a fy 'Neurokin'.

Gan ddefnyddio'r uchod i gael cipolwg ar unigolion o bob oed rydych chi'n gweithio ac yn byw gyda nhw, i greu'r amgylchedd cywir.



Cyflwynir gan:

**Tigger Pritchard**
Eiriolwr, Ymgynghorydd, a Hyfforddwr

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

# Seminarau a Siaradwyr

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

Darllen am seminarau

Ffurflen archebu grŵp

10:30 - 11:20

Seminar ADY

## Pam mae lleoliadau sy'n wybodus am drawma yn hanfodol

Nod y sesiwn yw cynnig dealltwriaeth o'r effaith a achosir gan brofiadau Niweidiol yn ystod plentyndod a'r effaith o ganlyniad ar ddysgu a chynnydd disgyblion.

- Effaith trawma ar fywyd a dysgu
- Yr hyn y gall gwyddoniaeth yr ymennydd flaengar a'r ymchwil seicolegol ei ddweud wrthym
- Y plentyn sydd wedi'i drawmateiddio: iachau'r ymennydd, y meddwl a'r corff
- Straen perthynol a thlodi perthynol: yr effaith hirdymor ar feddwl ac ymennydd y plentyn a'r ymyriadau sy'n gweithio



Cyflwynir gan:

**Dr Coral Harper**
Cyfarwyddwr of Trauma Informed Schools Wales

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10:30 - 11:20

## Diogelu rhag niweidiau digidol- chwarae gemau, dylanwadwyr a gamblo

Mae hysbysebu gemau, hysbysebu drwy dargedu a chynnwys y cyfryngau cymdeithasol i gyd yn cyfrannu i normaleiddio gamblio i'r oedran dan 18.
Mae 'Get Ahead of the Game' yn cryfhau a diogelu eich ffordd o fynd i'r afael â'r broblem ac yn eich cyflwyno i'r risgiau a all ddigwydd. Mae ein gweithdy yn cysylltu â'r cwricwlwm RSE (Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb) fydd yn eich helpu i baratoi dysgwyr hefo sgiliau meddwl beirniadol ynghylch â gwneud penderfyniadau a phwysau cymdeithasol; adnoddau hanfodol ar gyfer diogelu eu iechyd, lles a'u dyfodol.



Cyflwynir gan:

**Hannah Gunn**
Arweinydd Addysg ac Ataliadau (niwed gamblo

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb - Uwchradd**

10:30 - 11:20

## Arwain hefo dewrder: Sgyrsiau am hil mewn ysgolion

Fel penaethiaid rydych yn siapio'r diwylliant sy'n siapio ein plant.Bydd y seminar ryngweithiol yma'n cynnig gofod cefnogol i archwilio sut mae arwain sgyrsiau dylanwadol ar hil hefo hyder a chydymdeimlad. Gyda'n gilydd fe allwn adlewyrchu ar sut y gall ein arweinyddiaeth feithrin y syniad o berthyn, herio anghydraddoldeb, ac ysgogi gobaith.
Drwy strategaethau ymarferol a rhannu deialog byddwch yn caffael adnoddau fydd yn arwain eich cymuned ysgol hefo dilysrwydd ac empathi.
Mae'r ffocws ar fod yr arweinyddion y mae ein plant eu hangen ar gyfer heddiw, fel y gallent hwy yn eu tro ddod yn arweinyddion yfory mewn cymdeithas gadarn mewn cyfiawnder, tegwch a chyfleoedd i bawb.



Cyflwynir gan:

**Viv Grant**
Sefydlydd a Chyfarwyddwr

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa:
**Penaethiaid: Cynradd/Uwchradd/ADY**

10:30 - 11:20

SEMINAR ADY

## Gweithio gyda dysgwyr Niwrowahaniaethol

Bydd y seminar yn edrych ar brofiadau nodweddiadol o weithio hefo dysgwyr niwrowahaniaethol o fewn cyd-destun addysgol. Bydd yn edrych ar anawsterau cyffredin ADHD yn ogystal â chryfderau nodwedddion cyd-destunol mewn dysgwyr ADHD. Bydd y sesiwn yn herio camsyniadau ynglŷn â niwrowahaniaeth ac edrych ar sut y gallwn newid y naratif am niwrowahaniaeth o fewn addysg cyn disgwyl am newid systematig ehangach.



Cyflwynir gan:

**Dr Tom Nicholson**
Hyfforddwr a Phrif Siaradwr mewn Niwrowahaniaeth a Niwro-gyd-gynhwysiant ac Athro Cynorthwyol mewn Nyrsio Iechyd Meddwl

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

10:30 - 11:20

## Gweithdy dwylo niferus

- Ymlaciwch a myfyriwch yn ein cornel dawel, gan bori detholiad wedi ei guradu o adnoddau print sy'n cefnogi dysgu cynhwysol a dwyieithog.
- Camwch i mewn i stori gyda'n profiad realiti rhithwir, gan ymgolli mewn pentref Cymraeg ffuglennol sy'n hyrwyddo datblygiad iaith.
- Symud Siriol, parth symud wedi'i ysbrydoli gan natur sy'n cefnogi lles a rheoleiddio emosiynol trwy ymarferion syml, hygyrch.
- Creu a chysylltu yn y comin greadigol, lle bydd cyfranogwyr yn cydweithio ar fapio cof a gweithgareddau creu ffilmiau byrion sy'n dathlu llais dysgwyr ac adrodd straeon.
- Darganfyddwch beth sydd nesaf yn yr orsaf arloesi, lle rydym yn arddangos allbynnau cyffrous wedi'u datblygu mewn partneriaeth â dysgwyr ac addysgwyr ledled Cymru.



Cyflwynir gan:

**Dr Ali Hanbury, Elliw Roberts a Leah Cunningham-Edge**
Adnodd

Iaith: **Cymraeg a Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10:30 - 11:20

CYDAG

## Tracio ac asesu cynnydd Ysgol Llanfairpwll

Yn y seminar hwn, bydd Mr Gwyn Pleming, Pennaeth Ysgol Llanfairpwll, yn rhoi cyflwyniad manwl o'u gweithdrefnau tracio ac asesu cynnydd yn yr ysgol. Bydd yn rhannu'r asesiadau ffurfiol ac anffurfiol mae'r ysgol yn eu gynnal a sut maen't yn mynd ati i gofnodi a thracio'r asesiadau hyn a thargedu unrhyw dangyflawni.

Cyflwynir gan:

**Gwyn Pleming**
Pennaeth Ysgol Llanfairpwll

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Cynradd**

# Seminarau a Siaradwyr

Darllen am seminarau

Ffurflen archebu grŵp

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

12:00 - 12:50

## Grymuso llythrennedd drwy dechnoleg creadigol

Mae technoleg yn aml yn cael ei weld fel rhwystr i wella canlyniadau llythrennedd. Fodd bynnag, yn y sesiwn yma bydd Mr P yn dangos sut y gall technoleg gael gwared ar y rhwystrau yma i blant a'u galluogi i ddefnyddio eu hysgrifennu yn greadigol
ar gyfer amrywiaeth o gynnyrch amlgyfrwng.



Cyflwynir gan:

**Mr P (Lee Parkinson MBE)**
Athro Ysgol Cynradd ac Ymgynghorydd Addysg

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

## Deall lles meddyliol

1. Cyflwyniad i les meddyliol
2. Cerdyn sgorio Tîm y Lles Meddyliol - Asesu eich lles meddyliol cyfredol
3. Gweddnewid eich Rhwydwaith- Strategaethau ar gyfer adeiladu rhwydwaith gefnogol gryf.

Beth fydd yn cael ei egluro:
Bydd y cyfranogion yn gadael hefo dealltwriaeth newydd am eu rhwydwaith gefnogi a chamau y gellid eu gweithredu i wella eu lles meddyliol drwy gysylltiadau ystyrlon.



Cyflwynir gan:

**Mike Pagan**
Breaking Frontiers Ltd - Rheolwr Gyfarwyddwr

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

## *'Beyond Exhaustion'*: Deall a Chefnogi *'Burnout'* Niwrowahaniaethol yn y Dosbarth

Mae dysgwyr niwrowahaniaethol yn wynebu pwysau unigryw sydd yn gallu arwain at flinder cronig, gor-lethu emosiynol, a chau i lawr yn gyfangwbl sydd yn aml yn cael ei gam-ddehongli fel ymddieithrio neu ymddygiad heriol .Mae'r sesiwn yn edrych ar wreiddiau 'burnout' niwrowahaniaethol, a sut mae'n amlygu mewn lleoliadau addysgol, ynghŷd â strategaethau ymarferol a charedig i atal a chefnogi adferiad. Darparwch eich hun hefo'r adnoddau i greu amgylcheddau diogel ac ymatebol lle y gall pob disgybl ffynnu.



Cyflwynir gan:

**Kelly Hannaghan**
Ymgynghorydd Iechyd Meddwl a Lles

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

## YSGOLION HAPUS: Datrysiad i 'Botheredness', gwneud i ddysgu gyfrif, ac ail-ddarganfod hapusrwydd

Yn y sesiwn bydd Hywel yn:
- Tynnu ar bum egwyddor pedagogiaeth sy'n annog y dosbarth i gymryd rhan
- Cynnig gwahaniaeth rhwng ysgolion 'cynnes' a rhai 'oer'
- Edrych drwy stori ar sut mae Cynefin yn gallu bod yn fraint
- Edrych ar sut mae cywreinrwydd a rhyfeddu yn cynnig agoriadau wrth greu dosbarthiadau hapus.
- Rhannu ymchwil cyfredol er budd[hard value]  hapusrwydd
- Gwneud yn siwr ein bod yn cael hwyl

Bydd y cyfranogwyr yn gadael y sesiwn hefo egni newydd ar gyfer eu dosbarthiadau.



Cyflwynir gan:

**Hywel Roberts**
Athro, Awdur a Siaradwr Cyhoeddus

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

## Stopiwch hunan-ddifrodi - dwi angen gadael!

Bydd y sesiwn yn dangos sut yr ydym yn difrodi ein hunain a gwneud niwed i'n iechyd meddwl a'n ffitrwydd a hynny'n ANYMWYBODOL.
- Dysgu am eich difrodwyr chi'ch hun a sut mae'r rheini'n gweithio i ddinistrio eich hunan hyder a hapusrwydd.
- Darganfod sut i ddelio hefo difrodwyr pobl eraill i wella perthynas a dylanwad yn yr ysgol ac adref.
- Strategaethau parod i ymladd gorbryder ac adeiladu ffitrwydd meddyliol ar gyfer chi'ch hun, eich digyblion a'ch teulu.



Cyflwynir gan:

**Jackie Beere**
Hyfforddwr, awdur ac ymgynghorydd – cyn Bennaeth

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

SEMINAR ADY

## Creu amgylchedd sy'n gynhwysol i'r plant a phobl ifanc niwrowahaniaethol mewn ysgol

Yn y cyflwyniad byddwn yn edrych ar yr anhawsterau mwyaf i blant niwrowahaniaethol yn yr ysgolion yn cynnwys amgylcheddau, gor-bryder y dysgwr, cyfathrebu cymdeithasol, anghenion synhwyraidd, rheoli emosiynau, y cof a sialensau gweithredu. Bydd y sesiwn yn cynnig stratgaethau ymarferol sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth i gefnogi plant a phobl ifanc niwrowahaniaethol fel y gall pob ysgol ddod yn amgylchedd gynhwysol.



Cyflwynir gan:

**Colin Foley**
Cyfarwyddwr 'Neurodiversity Training UK'

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **ADY a Pawb**

# Seminarau a Siaradwyr

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

Darllen am seminarau

Ffurflen archebu grŵp

12:00 - 12:50

## Delio hefo gwrthod ar gynhwysiad

Mae delio hefo gwrthod ar gynhwysiad yn seminar ymarferol a grymus i staff sydd eisiau herio cynhwysiad- ond yn poeni am yr adlach.
Gan ffocysu ar senarios byw, mae'r seminar yn darparu hyder, iaith a thechnegau y mae eu hangen i ymateb i gwestiynau heriol gan rieni, staff a'r gymuned ehangach.
Byddwn yn edrych ar beth sy'n gyrru gwrthwynebiad, sut i gadw sgyrsiau'n ddigyffro a chadarn o ran gwerthoedd, a sut i gyfathrebu'n eglur ynglŷn â chynhwysiad heb fynd yn ddigalon a cholli pwyll.
Bydd y cyfranogwyr yn gadael hefo sgriptiau, strategaethau ac awgrymiadau wrth yrru negeseuon i ddelio hefo'r sgyrsiau anoddaf, tra'n cadw eich ysgol neu sefydliad ar y llwybr cynhwysol.



Cyflwynir gan:

**Ian Timbrell**
Sylfaenydd 'More Than Flags and Rainbows'
Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Cynradd a Pawb**

12:00 - 12:50

## Crynodeb o'r seminar: 'beyond the page'

Mae'r seminar ddynamig yn gyfoeth o storïau yn edrych ar farddoniaeth ac ysgrifennu creadigol fel adnoddau hanfodol ar gyfer y Pedwar Diben y Cwricwlwm yn Nghymru. Mae Gareth Williams yn tynnu ar brofiadau bywyd, perfformiadau llefaru, ac ymarferion dosbarth i ddangos sut mae llythrennedd creadigol yn magu llais, hyder, empathi a gwytnwch. Byddwch yn edrych ar sut y gellir gwreiddio barddoniaeth ar draws yr Ardal o Ddysgu a Phrofiad (AoLE), nid yn unig Saesneg, a sut mae'n cefnogi'r sgiliau hanfodol o'r cwricwlwm.
Bydd y sesiwn hefyd yn cynnig fframwaith ymarferol i helpu dysgwyr ddarganfod a rhoi eu goruwchbwerau 'superpowers' ar waith-gan ddathlu cryfderau unigol tra'n dyfnhau'r cyswllt i fwriadau'r cwrwiclwm.



Cyflwynir gan:

**Gareth Williams**
Y 'Createologists'
Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

SEMINAR ADY

## Cyflwyniad i dyscalculia ac anawsterau mathemategol

Bydd y seminar yn edrych ar ddiffiniadau, cyd-destun a Gorbryder Mathemategol, yn ogystal â'r dangosyddion o anawsterau mathemategol, defnyddio rhestrau gwirio ac adnoddau sgrinio, asesu, a strategaethau ymyriadau addysgu ar gyfer y dosbarth. Bydd gennych well dealltwriaeth o sut i sgrinio, adnabod a chefnogi dysgwyr hefo dyscalculia neu anawsterau mathemategol yn y dosbarth.



Cyflwynir gan:

**Cat Eadle**
Cyd-Sylfaenydd- Y Rhwydwaith Dyscalculia
Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

12:00 - 12:50

## Bywiogi eich gwersi

Bydd y sesiwn yn cynnig ffyrdd cyffrous sydd wedi'u treialu i ddysgu unrhyw beth mewn ffordd sydd yn dod â hapusrwydd yn ôl i'r dosbarth" (Yn cynnwys Hapusrwydd i'r athrawon!) Bydd athrawon yn darganfod technegau hawdd ar gyfer:

- Ymdopi hefo gwahaniaethau penodol mewn cyrhaeddiad tra'n gwneud dysgu deimlo'n fwynhád, yn saff a ddim yn fygythiol
- Addasu dysgu mewn ffordd ymatebol
- Helpu dysgwyr i fwynhau mewnoli gwybodaeth
- Dennu hyd yn oed y dysgwyr mwyaf anfodlon
- Defnyddio cwestiynu'n effeithiol
- Gwneud cynnydd yn hawdd i'w adnabod a'i ddathlu



Cyflwynir gan:

**Isabella Wallace**
Siaradwr ar Addysg ac Awdur
Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

## Cynllun pontio - cynradd uwchradd

Casgliad o adnoddau newydd digidol ar gyfer athrawon Cynradd ac Uwchradd yng Nghymru fel gweithgareddau trawsgwricwlaidd.

Maes 'Astudiaethau'r Amgylchfyd / Y Dyniaethau'.
Cyflwyno un o bedair Uned i'r athrawon - 'Cynefin Cymysg'
https://carreg-gwalch.cymru/blogs/news/cynefin-cymysg

Defnyddio amrywiaeth o apiau, meddalwedd a gwefannau arbenigol newydd ar lein i gefnogi athrawon a disgyblion i wneud ymchwiliadau ymarferol o fewn ' Y Dyniaethau' ac 'Astudiaethau'r Amgylchfyd.



Cyflwynir gan:

**Robin Williams**
Ymarferwr Creadigol ac Ymgynghorydd Technoleg Gwybodaeth
Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

## Yn gryfach gyda'n gilydd: Meithrin gwydnwch a llesiant drwy hyfforddi

Yn y seminar rhyngweithiol ac ysbrydoledig hwn, bydd Dyddgu Morgan-Hywel yn archwilio sut y gall strategaethau llesiant sy'n seiliedig ar hyfforddi gryfhau gwydnwch ymysg athrawon a chymunedau ysgol. Gan dynnu ar ei phrofiad fel hyfforddwraig llesiant, yn ogystal â'i chefndir fel athletwraig rygbi ryngwladol, mae Dyddgu yn cynnig safbwynt unigryw ar wydnwch meddyliol, gwaith tîm a thwf personol. Bydd y sesiwn yn amlygu sut y gall egwyddorion hyfforddi megis gwrando gweithredol, gofyn cwestiynau myfyriol a gosod nodau alluogi athrawon i ffynnu'n bersonol ac yn broffesiynol. Disgwylwch gymysgedd o drafodaeth ac adfyfyrio a fydd yn eich gadael yn teimlo'n gadarn, wedi'ch ysbrydoli ac yn barod i feithrin gwydnwch yn eich hun ac eraill.



Cyflwynir gan:

**Dyddgu Morgan-Hywel**
Hyfforddwraig Llesiant
Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Pawb**

# Seminarau a Siaradwyr

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

Darllen am seminarau

Ffurflen archebu grŵp

13:30 - 14:20

## Adnoddau technolegol i drawsnewid eich dysgu

Bydd Mr P yn rhannu a dangos ei hoff adnoddau technolegol y mae'n ddefnyddio fel athro i leihau ei lwyth gwaith, gwella dysgu, a chael gwell canlyniadau. Bydd yn dangos amrywiaeth o apps, gwefannau, ac adnoddau eraill, gan sicrhau fod pob athro'n gadael hefo nifer o syniadau i'w defnyddio yn eu dosbarthiadau.



Cyflwynir gan:

**Mr P (Lee Parkinson MBE)**
Athro Ysgol Cynradd ac Ymgynghorydd Addysg

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

13:30 - 14:20

## Y ffactor gudd tu ôl i'r ysgolion gorau (nad oes neb yn sôn amdanynt)

Byddwn yn edrych ar:

- Y dylanwad sydd gennnych ar eraill- a sut y gall hynny fod yn bwysig
- Sut mae'r grŵp cywir o gyfoedion yn gallu dylanwadu ar eich arweinyddiaeth, eich hyder-a'ch ysgol
- Yr effaith mae gweld ysgolion penigamp yn ei gael, a'r syniadau gwych y gallent eu cynnig

P'run ai ydych chi'n dawel uchelgeisiol neu'n teimlo'n 'ddigonol ond sdyc bydd y sesiwn yn eich helpu i ddychmygu beth sy'n bosib'- a chymryd un cam mawr yn nes ato.



Cyflwynir gan:

**Sonia Gill**
Cyfarwyddwr Heads-up

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

13:30 - 14:20

SEMINAR ADY

## AuDHD: Deall sut mae ADHD ac awtistiaeth yn croesdorri

Yn y gweithdy bydd Dr Tom Nicholson yn edrych ar sut y mae ein dealltwriaeth o ADHD ac awtistiaeth wedi datblygu, gan herio'r syniadau traddodiadol ar niwrowahaniaeth a'r ffordd mae'r cyfryngau cymdeithasol yn aml yn eu portreadu fel goruwchbwerau "superpower."
Oes yna ffordd wahanol o edrych ar ffyrdd i ddeall niwrowahaniaeth? Bydd y sgwrs yn edrych ar nodweddion craidd ADHD ac awtistiaeth , tra'n rhoi goleuni ar brofiadau rhai sy'n byw hefo'r ddau gyflwr. Pam nad ydy pobl yn sylweddoli eu bod yn awtistig nes iddyn nhw gael eu diagnosio hefo ADHD a dechrau ar feddyginiaeth adfywiol ('stimulant medication')? Sut y gall rhywun deimlo'n hollol fywiog un munud, ac eto'n teimlo'n flinedig wedyn?
Ymunwch â ni i edrych i mewn i'r cwestiynau yma a mwy.



Cyflwynir gan:

**Dr Tom Nicholson**
Hyfforddwr a Phrif Siaradwr mewn Niwrowahaniaeth a Niwro-gyd-gynhwysiant ac Athro Cynorthwyol mewn Nyrsio Iechyd Meddwl

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb/ADY**

13:30 - 14:20

SEMINAR ADY

## Gwrando i bwrpas: Defnyddio therapi cerdd 'Receptive' i gefnogi plant Niwrowahaniaethol

Mae plant niwrowahaniaethol gan gynnwys y rhai hefo awtistiaeth, ADHD, sialensau prosesu synhwyraidd, ac oedi mewn datblygiad yn aml yn wynebu problemau hefo rheoli, talu sylw a mynegiant emosiynol. Mae therapi cerdd 'receptive' yn ddull sydd ddim yn ymosodol ond sy'n ffocysu ar wrando strwythuredig, ac yn gallu cynnig llonyddwch, gwell sgiliau ffocysu, a phrofiadau sydd yn gefnogol yn emosiynol yn y dosbarth. Mae'r seminar yn cyflwyno addysgwyr i egwyddorion therapi cerdd 'receptive' ac yn eu darparu gyda strategaethau ymarferol o wrando sydd yn saff, syml, ac effeithiol i'w defnyddio mewn amgylchedd ysgol.



Cyflwynir gan:

**Joy Dando**
Therapydd Cerdd

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

13:30 - 14:20

SEMINAR ADY

## Pam fod Mathemateg cynradd mor arswydus â rhedeg marathon?

Gall ofn a gorbryder o Fathemateg fod yn beth real i'n plant, a gall ddeillio o eistedd mewn gormod o wersi sydd â'u man cychwyn wedi'i osod yn anaddas. Pan mae gan athrawon anabyddiaeth eglur o fannau cychwyn y plant, ac yn glir ar eu taith trwy gamau dilyniant rhifyddol, gall plant ddatblygu yr annibyniaeth a'r hyder sydd ei angen i ffynnu mewn gwersi mathemateg.

Yn y gweithdy byddwn yn edrych ar bwysigrwydd adnabod mannau cychwyn y plant a sut i adeiladu ar eu dealltwriaeth o gysyniadau allweddol drwy ddefnyddio deunyddiau ymarferol, darluniadau, a chwestiynu effeithiol.



Cyflwynir gan:

**Toni Priddey**
First4Maths Academy

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Cynradd ac ADY**

13:30 - 14:20

SEMINAR ADY

## Awtistig, yn yr ysgol, gall deall ein gwahaniaethau synhwyraidd wella dysgu

Yn ystod y sesiwn hon, bydd Tigger yn ymdrin â:

- Awtistig, ffordd wahanol o brofi'r byd synhwyraidd;
- Archwilio ein Synhwyrau;
- Bod yn Awtistig, enghreifftiau gennyf fi a fy Neurokin, yn archwilio ein byd synhwyraidd, gan roi cipolwg i chi ar ddiwrnod yn yr ysgol;
- Beth allwn ni ei wneud i leihau'r pryder a ddaw yn sgil ein gwahaniaethau synhwyraidd;
- Gan ddefnyddio ein gwahaniaethau synhwyraidd i wella ein dysgu a lleihau ein pryder, mae Neurokits!



Cyflwynir gan:

**Tigger Pritchard**
Eiriolwr, Ymgynghorydd, a Hyfforddwr

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

# Seminarau a Siaradwyr

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

**Darllen am seminarau**

**Ffurflen archebu grŵp**

13:30 - 14:20

## Sut i gyflwyno trafodaeth dosbarth sy'n dal sylw y myfyrwyr, gwreiddio'r dysgu a stretsio'r meddwl?

Bydd y seminar yn trafod :

- Strwythuro eich gwers o gwmpas cwestiwn allweddol a chwestiynau eraill
- Sut i ysgrifennu cwestiynau sy'n cychwyn trafodaeth
- Lleihau'r llwyth gwybyddol, torri gwybodaeth newydd i fyny a chreu prociau trafodaeth
- Cynllunio trafodaeth effeithiol
- Dal sylw yr holl ddysgwyr yn cynnwys y myfyrwyr dan anfantais a'r rhai hefo anawsterau ADY
- Beth i wneud hefo "Dwi'm yn gwybod" neu atebion anghywir
- Ymarferion i wella'r meddwl ac ennyn trafodaeth
- Creu gweithgareddau sy'n dod i gasgliad ac atgyfnerthu



Cyflwynir gan:

**Jonathan Ferstenberg**
Partner gwella ysgol a Hyfforddwr Arweinyddiaeth

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **CA2, Uwchradd, Addysg Bellach, ADY**

13:30 - 14:20

SEMINAR ADY

## Dyslecsia a fi – deall dyslecsia ar gyfer staff addysg

Byddwn yn datblygu eich dealltwriaeth o ddyslecsia a'r heriau a wynebir mewn addysg, gan edrych ar y canllawiau a'r diffiniadau diweddaraf. Bydd dulliau ac addasiadau'n cael eu hystyried a'u rhannu i sicrhau ymgysylltiad cadarnhaol i bawb.



Cyflwynir gan:

**Karen Ferguson**
Hyfforddwr NSM Training & Consultancy

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

13:30 - 14:20

## Adeiladu eich tîm lles meddyliol

Pwyntiau Allweddol

- Yr angen am hunan les rhagweithiol i gynnal lles meddyliol
- Deall rôl bendant hyfforddi a rhwydweithiau proffesiynol i gefnogi twf personol
- Adnabod sut y gall grŵpiau 'mastermind' ddarparu'r strwythur a'r atebolrwydd sydd ei angen ar gyfer llwyddiant.

Bydd y cyfranogion yn dysgu am strategaethau ymarferol hunan- les a sut i feithrin rhwydwaith sydd yn cynnig cefnogaeth ac atebolrwydd fydd yn gwella eu lles meddyliol [mental wealth] ac yn eu gwneud yn fwy effeithiol.



Cyflwynir gan:

**Mike Pagan**
Rheolwr gyfarwyddwr - Breaking Frontiers Ltd

Iaith **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

13:30 - 14:20

## Chwarae i ddysgu

Cynllunio ar gyfer dysgu sy'n seiliedig ar chwarae, gan ddatblygu diddordebau a chymhellion dysgwyr mewn profiadau sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Bydd gan y profiadau hyn fwriadau dysgu wedi'u llunio fel rhan o'n gwaith cynllunio.





Cyflwynir gan:

**Gwawr Thomas a Joanne Davies**
Ymgynghorwyr Addysg

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Pawb**

13:30 - 14:20

CYDAG

## Trochi effeithiol yn y blynyddoedd cynnar

Mae Dr Sian Wyn Siencyn yn arbenigwraig yn y blynyddoedd cynnar ac yn y seminar hwn bydd yn cyflwyno sut mae trochi plant di-Gymraeg yn effeithiol yn eu blynyddoedd cyntaf yn yr ysgol.



Cyflwynir gan:

**Dr Sian Wyn Siencyn**
CYDAG

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Pawb**

13:30 - 14:20

CYDAG

## Datblygu medrau darllen ar draws feysydd y cwricwlwm

Yn y sesiwn hon, fe fydd Awen yn cyflwyno strategaeth lwyddiannus Ysgol Dyffryn Conwy wrth ddatblygu medrau darllen disgyblion oed uwchradd ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys ymchwil, cynllunio strategol, y gweithredu a'r effaith ar y maes arbennig hwn. Cyflwynir sut mae meysydd penodol wedi mabwysiadau'r strategaeth ysgol gyfan er mwyn bod disgyblion yn magu hyder ac yn gwneud cynnydd ar draws y cwricwlwm. Ceir hefyd enghreifftiau o adnoddau cynllunio ac addysgu cyfoethog ac effeithiol. Cydnabwyd gwaith grymus Ysgol Dyffryn Ogwen yn y maes hwn gan Estyn fel astudiaeth achos.

YSGOL DYFFRYN CONWY

Cyflwynir gan:

**Awen Mair**
Arweinydd Darllen

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Uwchradd**

# Seminarau a Siaradwyr

Darllen am seminarau

Ffurflen archebu grŵp

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

15:00 - 15:50

## Y pŵer o berthyn

Fe wnaeth Nick reoli cau dwy ysgol oedd yn tangyflawni'n sylweddol i ffurfio ysgol gwerth £50 miliwn ar gyfer 2,300 o fyfyrwyr. Sylweddolodd yn sydyn nad ydy cael adeilad newydd mor bwysig ag adeiladu cymuned a'i fod yn dechrau gyda'r Pŵer o Berthyn. ('*The Power of Belonging*')

Rydan ni i gyd wedi cael profiad o'r ofn sy'n dod gyda pob newid.
Yn y seminar bydd Nick yn defnyddio adrodd stori a dod â cymeriadau lliwgar yn fyw, i ddangos sut mae'r teimlad cryf o berthyn – yn ein bywydau preifat a phroffesiynol –yn dwysáu balchder ac yn esgor ar gyflawniad a llwyddiant trawsffurfiol.



Cyflwynir gan:

**Nick Bowen**
Siaradwr – Cyn Bennaeth Coleg Horizon Community Barnsley

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

15:00 - 15:50

## Llenyddiaeth amrywiol mewn ysgolion

Bydd y sesiwn yn agor hefo penawdau o ymchwil diweddar ar yr amrywiaeth o destunau llenyddiaeth sydd yn cael eu dysgu yng Nghymru- yn Gymraeg,Saesneg a Ieithoedd Rhyngwladol.Mae'n edrych ar rai o'r rhwystrau i'r amrywiaeth testunau sydd mewn dosbarthiadau a'r rhai s'yn cael eu hargymell ar gyfer darllen er pleser i'r disgyblion.
Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r amser gyda'n gilydd yn cael ei neilltuo i edrych ar broject ar-lein am ddim, PDF dwyieithog a fideos i helpu athrawon (llyfrgellwyr a rhieni hefyd) i ddarganfod testunau amrywiol.
Maent ar gael ar Hwb a'u rhannu gan BAME Cymru (Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol),'*Show Racism the Red Card*', a 'subject associations' led-led y DU.
Bydd pob sleid ac adnoddau yn ddwyieithog yn y Gymraeg/Saesneg.



Cyflwynir gan:

**Dr Sarah Olive**
Prifysgol Bangor a Phrifysgol Aston -Uwch Ddarlithydd

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

15:00 - 15:50

## Delwedd corff: Adeiladu hyder a gwytnwch

Mae delwedd corff negyddol yn cyd-fynd â pheidio cymryd rhan yn y dosbarth ac wedi'i gysylltu ag ymddygiad niweidiol eraill. Mae'r 'Dove Self-Esteem Project' wedi datblygu adnoddau i wella delwedd corff a chynorthwyo myfyrwyr i deimlo'n fwy hyderus a chymryd rhan. Bydd y sesiwn yn rhoi cyflwyniad ar gyfer adnoddau i'r Cynradd a'r Uwchradd. Byddwch yn gadael y sesiwn hefo côf bach USB am ddim wedi'i lwytho hefo adnoddau addysgol ar gyfer gwella hyder y corff.



Cyflwynir gan:

**Martin Staniforth**
Dove Self-Esteem Project

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

15:00 - 15:50

## Gwylwyr tywydd: Troi deunyddiau ailgylchadwy yn ddata go iawn

Gweithdy ymarferol trawsgwricwlaidd ar ddefnyddio eitemau bob dydd ac ailgylchu i greu gorsaf dywydd, y gellir wedyn ei defnyddio i gynhyrchu data ar gyfer mathemateg, technoleg a daearyddiaeth.





Cyflwynir gan:

**Charlotte Cooper**
**Jennifer Hough -** Education Officer Xplore

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

15:00 - 15:50

SEMINAR ADY

## Defnydd effeithiol o ddeunyddiau ymarferol mewn mathemateg cynradd ar gyfer pob plentyn

Pan yn cael eu defnyddio'n effeithiol mae deunyddiau ymarferol yn adnoddau pŵerus i gefnogi deallusrwydd y plant a gosod sialens i feddwl a rhesymu'r plant ar lefel ddyfnach. Bydd y gweithdy yn edrych ar y dilyniant drwy gysyniadau mathemategol o'r cyflwyniad cychwynnol i'r lefel ddyfnach o ddeall.

Pan mae athrawon yn gwybod sut i gyflwyno cysyniadau'n effeithiol hefo deunyddiau ymarferol, gall y plant seilio eu dealltwriaeth ar seiliau cadarn a thaclo cwestiynau hefo hyder. Gellir defnyddio deunyddiau ymarferol (concrete resources) i ddatblygu eu deallusrwydd ymhellach, gan alluogi plant i gyffredinoli, rhesymu, a datrys problemau ar lefel ddyfnach.



Cyflwynir gan:

**Toni Priddey**
First4Maths Academy

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

15:00 - 15:50

## Defnyddio hyfforddi i ddatblygu egwyddorion addysgu eich cydweithwyr

- Camau y drafodaeth hyfforddi: cwestiynau defnyddiol, problemau posib' a sut i'w goresgyn neu eu hosgoi
- Cynllunio ar gyfer y sesiwn hyfforddi: gweithio yn ôl o'ch cam bwriadol a chefnogi
- Y drafodaeth hyfforddi: Pwysigrwydd bod yn hyblyg, bod yn agored a bod yn anghywir
- Mathau eraill o hyfforddi: Ymarfer bwriadol, hyfforddiant byw, hyfforddiant fideo
- Camau ymarferol i helpu eich cydweithwyr gan gynnwys modelu, cynllunio ar y cyd a marcio ar y cyd
- Byddwch yn cael cyfle i wylio tamaid o wers samplo a thrafod ac ymarfer bob cam o'r uchod mewn parau/grŵpiau.



Cyflwynir gan:

**Jonathan Ferstenberg**
Partner gwella ysgol a Hyfforddwr Arweinyddiaeth

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Uwchradd a Pawb**

# Seminarau a Siaradwyr

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

Darllen am seminarau

Ffurflen archebu grŵp

15:00 - 15:50

### Cracio rhifedd drwy arddull ffonig

Mae'r sesiwn ar gyfer athrawon/ysgolion sydd ddim eto wedi 'cracio'r system' sy'n gwneud yn siwr fod plant bob amser yn cael adborth sydyn a chywir pan yn prosesu rhif. Bydd yn dangos sut y gall dull strwythuredig systematig – yn debyg i ffonics, fod yn allweddol i osod sylfeini pwysig ar gyfer darpariaeth mathemateg yr holl ysgol. Bydd cyffelybiaethau pwysig yn cael eu gwneud hefo ffonics, sut y mae dysgwyr yn rhoi gwybodaeth newydd ar waith, a beth mae hyn yn ei olygu i bedagogiaeth, asesu a ffyrdd o ddysgu. Bydd y sesiwn hefyd yn dangos sut mae adnabod a rhoi cynnwys allweddol mewn trefn , a gyrru gweithrediadau a dylanwadau cryfach fydd yn helpu ysgolion i symud tuag at ganlyniadau mathemateg cyson ac effeithiol.



Cyflwynir gan:

**Ben Harding**
Cyfarwyddwr – Ennill hefo rhifau 'Winning With Numbers'

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

15:00 - 15:50

### Y Dull Catrin ac Abi

Seminar ADY

**Y Dull Catrin & Abi: BSL ( iaith arwyddion) yn y Dosbarth i Bawb a'r buddion i Ddatblygiad pellach 'SLC' (Datblygu Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu) a dysgu Cymraeg.**
Ffordd unigryw ydy Dull Catrin &Abi i integreiddio Iaith Arwyddion Cymraeg (BSL) i ddosbarthiadau prif lif. Bydd y seminar yn eich cyflwyno i'r theori a'r dull ymarferol o'r dull. Bydd yn dangos sut mae disgyblion nid yn unig yn dysgu iaith newydd [a manteisio ar y buddion a ddaw yn sgîl hynny] ond hefyd sut mae'n helpu datblygu ehangach ar sgiliau Datblygu Lleferydd ,Iaith a Chyfathrebu ('SLC'), yn enwedig i'r disgyblion hefo anghenion DLIIa CH ('SLC'), yn ogystal ag adnodd pwysig ar gyfer datblygu dysgu Cymraeg fel iaith.



Cyflwynir gan:

**Dr John Evans BA (Anrhydedd), MA, PhD**
Crëwr dull BSL (iaith arwyddo) Catrin & Abi a'r gyfres lyfrau Catrin & Abi

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

15:00 - 15:50

CYDAG

### Strategaeth darllen effeithiol

Mae Ysgol Bro Gwydir wedi cael cydnabyddiaeth gan Estyn am eu gwaith i ddatblygu safonau darllen. Bydd y seminar hwn yn rhoi mewnwelediad i chi am eu gweithdrefnau, gan gynnwys:-

- Strategaeth/ raglen darllen yr ysgol sy'n sicrhau fod pob plentyn ar lefel llyfr darllen priodol ac addas i'w hoed a gallu.
- Rhaglenni ymyrraeth darllen a rhaglenni ar lein
- System wobrwyo darllen ar draws yr ysgol
- Strategaethau dysgu darllen ar draws yr ysgol
- Strategaethau cymhwyso sgiliau darllen o fewn heriau annibynnol yn y Cyfnod Sylfaen ac o fewn gwaith thema'r adran Iau.

Cyflwynir gan

**Mrs Bethan G Jones a Mrs Eirian Jones**
Ysgol Bro Gwydir

Iaith **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Cydlynwyr Iaith / Athrawon Cynradd**

15:00 - 15:50

### Estyn: Ychwanegu gwerth at y system addysg

Mae'r seminar codi ymwybyddiaeth hwn yn darparu trosolwg o Estyn a sut mae ein gwaith yn cefnogi'r system addysg yng Nghymru. Mae'r sesiwn yn amlinellu cyfnodau allweddol arolygiad, yr ymweliadau interim, a'r hyn y gall darparwyr ei ddisgwyl o'n prosesau, tra hefyd yn tynnu sylw at adnoddau gwelliant ehangach i gefnogi datblygiad parhaus.

**Disgresiwn**
Sylwer: Bydd y sesiwn hon yn cael ei recordio gan Estyn.
Os nad ydych yn dymuno cael eich recordio, rhaid i chi hysbysu Estyn ymlaen llaw.

Cyflwynir gan

**Estyn**

Iaith: **Cymraeg a Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

# PWYSIG

Byddwch yn derbyn e-bost cadarnhau gan Eventbrite o fewn pythefnos i gyflwyno'ch ffurflen gofrestru, cadwch yr e-bost hwn yn ddiogel.

Bydd angen i chi sganio'r côd QR o'ch e-bost cadarnhau gwreiddiol wrth gyrraedd y Sioe.

Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn gwirio hyn ymlaen llaw ac yn cysylltu ar unwaith os nad ydych wedi derbyn eich e-bost cadarnhau archebu.

Os nad oes gennych eich e-bost cadarnhau / côd QR, bydd angen i chi fynd at y 'Ddesg Gymorth Gwybodaeth' ar y diwrnod, a gall hyn ohirio eich mynediad.

